CANFOD! gyrfaoedd creadigol CYMRU

DISCOVER! creative careers CYMRU

# Pecyn Cymorth Ysgolion a Cholegau

(FERSIWN GYMRAEG)

2025–26



Funded by UK Government

Wedi ei ariannu gan Llywodraeth y DU



# Cyflwyniad

***"Rydyn ni wrth ein bodd bod y modelau rôl yma sy'n llawn ysbrydoliaeth yn ymuno â ni heddiw i ysgogi ein disgyblion ymhellach a'u hysbrydoli i lwyddo."***
Kelly Bubbins, Dirprwy Bennaeth

Mae Canfod! Gyrfaoedd Creadigol 2025–26 yn fenter dan arweiniad y diwydiant sydd wedi'i chynllunio i roi cyfarfyddiadau a phrofiadau i bobl ifanc 11–18 oed o'r diwydiannau creadigol drwy gyfleoedd yn yr ysgol, yn y gweithle ac ar-lein.

Mae menter Canfod! Gyrfaoedd Creadigol yn rhedeg drwy gydol y flwyddyn, ond mae yna ffocws ar weithgareddau rhwng 17eg a 21ain Tachwedd pan fydd cannoedd o gyflogwyr o bob cwr o'r diwydiannau creadigol yn gwirfoddoli eu hamser i gynnig gweithgareddau am ddim i ysgolion/colegau a fydd yn ysbrydoli pobl ifanc ac yn eu hysbysu am y miloedd o rolau a llwybrau sy'n bodoli yn y sectorau ffyniannus hyn.

Mae gwefan Canfod! Gyrfaoedd Creadigol yn gartref i ystod eang o adnoddau ac offer gyrfaoedd sy'n cynnig cymorth cynhwysfawr helaeth ar gyfer ymweliadau ac yn helpu ysgolion/colegau i fodloni gofynion eu fframwaith Addysg a Phrofiadau Byd Gwaith a Gyrfaoedd a'r Byd Gwaith, gan gynnwys cynlluniau gwersi dan arweiniad y diwydiant, adnoddau ffilm a Chwilotydd Gyrfaoedd Creadigol rhyngweithiol i fyfyrwyr.

Rhywbeth newydd yn 2025 yw ein Chwilotydd Canfod Cyfle ar-lein lle gallwch chwilio am gyfleoedd byw yn y diwydiant a chysylltu â chyflogwyr yn uniongyrchol i wneud trefniadau.

***"Mae pobl ifanc yn meddwl mai dim ond ar y set y byddan nhw'n gweithio. Ond rydw i eisiau cyfleu y gallen nhw weithio mewn swyddfa gynhyrchu, mewn gweithdy, neu ar leoliad. Gwnaeth Into Film gymryd y syniad yma a'i roi mewn adnodd rwy'n ei ddefnyddio nawr."***
Addysgwr

Dylai'r pecyn cymorth hwn roi popeth sydd ei angen arnoch i'ch helpu i gymryd rhan yn Canfod! Gyrfaoedd Creadigol Cymru, ond mae croeso i chi gysylltu â ni i ofyn unrhyw gwestiynau: discovercymru@intofilm.org

Byddem wrth ein bodd yn derbyn unrhyw adborth neu luniau/ffilmiau o'ch profiad, felly da chi, rhannwch y rhain gyda ni drwy e-bost (gweler tudalen 8 i gael rhagor o wybodaeth am ffotograffiaeth/ffilmio mewn gweithleoedd).

P'un a ydych chi'n cynllunio ymweliad â gweithle, yn croesawu rhywun o'r diwydiant i'ch ysgol/coleg i roi sgwrs neu gynnal gweithdy, yn cymryd rhan yn y rhaglen ar-lein neu'n bwriadu defnyddio ein cyfres o adnoddau, gobeithiwn y byddwch chi a'ch myfyrwyr yn cael amser gwych!

**Tîm Canfod! Gyrfaoedd Creadigol Cymru**


## Cynnwys y pecyn cymorth


| | Tudalen |
|---|---|
| Trosolwg o'r Diwydiannau Creadigol | 3 |
| Adnoddau ar-lein | 4 |
| Ffyrdd o gymryd rhan | 5–6 |
| Canllawiau ar gyfer cymryd rhan mewn digwyddiad | 6–8 |
| Lechyd a Diogelwch | 9–10 |
| Fy nghynllunydd personol (taflen waith myfyrwyr) | 11 |


Delwedd © Myfyrwyr yn cymryd rhan mewn gweithdy cerddoriaeth yn ystod Wythnos Canfod! Gyrfaoedd Creadigol 2024

# Beth ydyn ni'n ei olygu wrth y diwydiannau creadigol?



Hysbysebu


Animeiddio



Pensaernïaeth


Crefftau


Technolegau Creadigol a Digidol


Dylunio (Cynnyrch a Graffeg)


Ffasiwn a Thecstilau


Ffilm a Theledu



Treftadaeth


Llyfrgelloedd ac Archifau


Y Cyfryngau


Amgueddfeydd ac Orielau



Cerddoriaeth



Ffotograffiaeth a Fideograffeg


Cyhoeddi


Radio, Podlediadau a Sain


Theatr a'r Celfyddydau Perfformio


Gemau Fideo


Celfyddydau Gweledol


Ysgrifennu a Newyddiaduraeth



# Adnoddau ar-lein

Mae gwefan Canfod Gyrfaoedd Creadigol yn cynnal amrywiaeth o adnoddau a allai fod yn ddefnyddiol i chi wrth baratoi ar gyfer Wythnos Canfod! Gyrfaoedd Creadigol, Cymru

## Cynlluniau gwersi

Mae'r cynlluniau gwersi hyn wedi'u cynllunio ar y cyd ag arbenigwyr yn y diwydiant ac yn cynnwys adnoddau ffilm a PowerPoint. Maen nhw'n bodloni nifer o ofynion fframwaith Addysg a Phrofiadau Byd Gwaith a Gyrfaoedd a'r Byd Gwaith ac yn cyflwyno myfyrwyr i weithio mewn gwahanol sectorau yn y diwydiannau creadigol, gan gynnwys:

- Archifau
- Pensaernïaeth
- Ffasiwn a thecstilau
- Cerddoriaeth
- Hysbysebu a marchnata
- Crefftau
- Celfyddydau perfformio
- Amgueddfeydd, orielau a threftadaeth
- Diwydiannau sgrin

**NODER**
Mae'n debygol y bydd y rhestr hon yn cynyddu wrth i'r rhaglen fynd rhagddi – gan gynnwys adnoddau penodol i Gymru ac adnoddau Cymraeg.

Mae yna gynllun gwers hefyd sy'n cyflwyno'r cysyniad o'r diwydiannau creadigol, ac un sy'n edrych ar ymarferoldeb a manteision sefydlu eich hun fel gweithiwr llawrydd.

## Adnoddau fideo

Wedi'u creu fel adnoddau cynhwysfawr a manwl, mae'r rhain yn cynnwys ffilmiau sy'n rhoi trosolwg byr o wahanol is-sectorau'r diwydiannau creadigol, yn ogystal â ffilmiau hirach "lle rwy'n gweithio" lle mae sawl person yn trafod eu rolau a'u llwybrau gyrfa.

Mae ein banc adnoddau fideo yn cynnwys ffilmiau ar:

- Sgrin – ffilm a theledu
- Cerddoriaeth
- Celfyddydau perfformio, llenyddiaeth a chyhoeddi
- Amgueddfeydd, orielau a threftadaeth
- Crefftau, ffasiwn a thecstilau
- Gemau, XR ac animeiddio
- Hysbysebu a marchnata
- Pensaernïaeth

Mae yna hefyd ffilm sy'n rhoi cyflwyniad cyffredinol i'r diwydiannau creadigol sy'n ategu cynllun gwers y diwydiannau creadigol.

## Chwilotwr gyrfaoedd

Wedi'i gynllunio ar gyfer rhai 11–18 oed, mae'r Chwilotydd Gyrfaoedd Creadigol yn cynnwys dros 500 o broffiliau swyddi o bob cwr o'r diwydiannau creadigol sy'n cynnwys gwybodaeth am yrfaoedd gan ein partneriaid yn y diwydiant. Gall pobl ifanc hidlo chwiliadau yn ôl eu diddordebau, eu sgiliau a'u hobïau ac fe allan nhw gadw eu tudalen ganlyniadau unigryw fel adnodd dysgu. Fe allwch chi ddewis gwneud hyn fel gweithgaredd dosbarth neu ei gosod fel tasg annibynnol.



Delwedd © Get Into Theatre, ffotograffydd Alex Brenner




# Ffyrdd o gymryd rhan

Eleni rydyn ni'n annog cymaint o gyflogwyr â phosibl i gynnig cyfarfodydd wyneb yn wyneb yn eu gweithle neu mewn ysgolion/colegau, fel y gall y bobl ifanc glywed yn uniongyrchol am rolau, sgiliau, llwybrau gyrfa a mwy. Mae cyflogwyr yn gwirfoddoli eu hamser i gynnal y digwyddiadau hyn a chaiff ysgolion a cholegau gymryd rhan ynddyn nhw am ddim.

Bydd y gweithgareddau yn cael eu rhestru ar ein Chwilotydd Canfod Cyfle lle gallwch hidlo yn ôl ardal, sector a math o gyfle, cyn gwneud ymholiadau am y gweithgareddau sydd o ddiddordeb i chi. Rydyn ni hefyd wrth ein bodd o fod yn gweithio gyda Siaradwyr i Ysgolion a fydd unwaith eto'n cyflwyno rhaglen wych ar-lein.

Rydyn ni'n hyrwyddo Canfod! Gyrfaoedd Creadigol Cymru i'r diwydiant ac yn gobeithio gweld digonedd o weithgareddau ar draws pob maes dros y misoedd nesaf.

Yn y gorffennol, mae rhai ysgolion wedi cyfuno gweithgareddau wyneb yn wyneb ac ar-lein â'u rhaglenni eu hunain, gan drefnu ffeiriau gyrfaoedd a sgyrsiau gyda chyflogwyr lleol a defnyddio ein hystod eang o adnoddau i lunio eu hamserlen. Cewch ysbrydoliaeth o'r astudiaeth achos hon yng nghwmni Ysgol Abbs Cross.

## Y mathau o weithgareddau sydd i'w gweld ar y Chwilotydd Canfod Cyfle:

**Wyneb yn wyneb yn y gweithle**

**Wyneb yn wyneb mewn lleoliad arall**

**Wyneb yn wyneb mewn ysgol/coleg**

**Hybrid (wyneb yn wyneb ac ar-lein)**

**Ar-lein yn unig**

Delwedd © UK Music. Yr artist Shao Dow yn cynnal gweithdy cerddoriaeth i fyfyrwyr yn nwyrain canolbarth Lloegr. Ffotograffydd: Courtney Wallace.

## Syniadau am weithgareddau ar gyfer ymweliadau'r diwydiant mewn ysgolion

- **Rhwydweithio cyflym:** Gall hyn weithio naill ai mewn dwy linell neu ar ffurf cylch mewnol ac allanol. Mae un llinell/cylch yn aros lle maen nhw a bydd y llall yn symud un person ar y tro. Bydd gan y myfyrwyr 1 funud i ofyn cwestiynau i bob ymwelydd er mwyn dysgu beth yw eu gwaith a beth oedd eu llwybr i mewn i'r diwydiant. Rydyn ni'n argymell gosod y cwestiynau hyn a'u hysgrifennu ar fwrdd/sgrin. Fe fyddwch chi'n defnyddio chwiban/cloch bob munud fel arwydd ei bod yn bryd symud.
- **Fflach-gyflwyniadau:** Rhowch amserydd 1 funud a chwiban/cloch i un o'r myfyrwyr. Nhw sydd wedyn yn gyfrifol am amseru pob ymwelydd ar y llwyfan wrth iddyn nhw gyflwyno eu hunain a'u swydd i'r grŵp.
- **Hawl i holi:** Paratowch gardiau cwestiynau wedi'u rhifo a'u rhoi i'r myfyrwyr. Yna mae'r myfyrwyr yn darllen y cwestiynau yn eu trefn ac fe allan nhw ddewis pa ymwelydd sy'n gorfod ateb pa gwestiwn. Fe allech chi gael cymysgedd o gwestiynau difrifol am eu swyddi/gyrfaoedd a chwestiynau ysgafnach.
- **Paru'r dasg:** Cyflwynwch ambell ymwelydd gwahanol, teitl eu swydd a disgrifiad syml un linell o'r hyn maen nhw'n ei wneud a pharatowch daflenni yn disgrifio tasgau a gweithgareddau dyddiol sy'n rhan o'u gwaith. Mewn grwpiau, bydd y myfyrwyr yn trafod ac yn dweud pa berson maen nhw'n meddwl sy'n cyflawni pa set o dasgau. Yna bydd yr atebion cywir yn cael eu datgelu. Gallai hyn hefyd gael ei wneud gyda phapurau post-it neu siartiau troi.
- **Dyfalu fy rôl:** Gofynnwch i bob ymwelydd ddod â phrop sy'n cynrychioli eu swydd neu eitem maen nhw'n ei defnyddio'n aml yn eu gwaith. Yna gall y myfyrwyr ddyfalu beth yw'r rolau cyn clywed yr ateb cywir.

# Canllawiau ar gyfer cymryd rhan mewn digwyddiad

Mae digwyddiadau Canfod! Gyrfaoedd Creadigol Cymru wedi'u cynllunio i roi cipolwg unigryw i bobl ifanc ar y mathau o rolau (creadigol neu fel arall) sydd ar gael iddyn nhw ar draws y diwydiannau creadigol. Drwy gyswllt wyneb yn wyneb neu ar-lein, bydd gan y bobl ifanc well dealltwriaeth o'r amrywiaeth eang o sectorau a'r cyfleoedd sydd ar gael iddyn nhw.

Er bod y digwyddiadau am ddim i ysgolion, mae cryn dipyn o amser, ymdrech a chynllunio yn mynd i'w trefnu. Gyda hyn mewn golwg, gofynnwn i unrhyw ysgolion na allan nhw mwyach fynd i ddigwyddiad sydd wedi'i drefnu, roi gwybod i'w gwesteiwr neu'r trefnydd cyn gynted â phosibl. Ni fydd unrhyw ysgol sy'n archebu digwyddiad ac na fyddan nhw'n bresennol ar y diwrnod, heb roi gwybod i ni na'r sefydliad dan sylw, yn gallu archebu unrhyw ddigwyddiadau Canfod! Gyrfaoedd Creadigol Cymru yn y dyfodol.

Os ydych chi'n mynd i ddigwyddiad wyneb yn wyneb, eich gwesteiwr fydd eich prif bwynt cyswllt. Mae pob gwesteiwr yn y diwydiant sy'n cymryd rhan yn nigwyddiadau Canfod wedi cael canllawiau ynghylch diogelu ac wedi cael cyngor a thempledi ar lunio asesiadau risg. Fe allan nhw hefyd ddewis darparu gweithgareddau cyn y digwyddiad i chi eu cynnal gyda'ch myfyrwyr cyn eich ymweliad.

I ddechrau eich diwrnod, bydd y gwesteiwr yn eich croesawu ac yn rhoi trosolwg o'r digwyddiadau dan sylw. Dylai hyn gynnwys canllawiau ar reolau iechyd a diogelwch, ffotograffiaeth a defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol ac unrhyw logisteg ar gyfer y diwrnod, gan gynnwys egwyliau tŷ bach a threfniadau cinio. Os nad yw unrhyw un o'r rhain wedi'u trafod, gofynnwch i'ch gwesteiwr rannu'r wybodaeth hon gyda'ch myfyrwyr.

Rydyn ni'n cynghori bod pob grŵp yn cadw at y canllawiau isod er mwyn sicrhau bod pawb yn cael profiad diogel a chadarnhaol:

## Cludiant

Chi sy'n gyfrifol am gludo'ch grŵp i'r digwyddiad ac yn ôl. Holwch eich gwesteiwyr ynghylch lle parcio, os oes angen.

Cymerwch olwg ar gronfa Ewch i Weld sydd ar gael drwy Gyngor Celfyddydau Cymru (mae angen gwneud cais 6 wythnos cyn y digwyddiad) [https://arts.wales/funding/creative-learning/go-and-see](https://arts.wales/funding/creative-learning/go-and-see).

Mae hefyd gan Drafnidiaeth Cymru y cynnig hwn: Gall plant dan 11 oed deithio am ddim ar drenau Trafnidiaeth Cymru unrhyw bryd pan fyddan nhw yng nghwmni oedolyn sy'n talu am docyn. Hefyd, gall plant 11–15 oed deithio am ddim yn ystod oriau tawel pan fyddan nhw yng nghwmni oedolyn sy'n talu am docyn.

## Anghenion Dysgu Ychwanegol

Cysylltwch neu siaradwch â'ch gwesteiwr os oes angen addasu'r sesiwn ar gyfer eich grŵp.

## Iaith

Gwiriwch ym mha iaith fydd eich sesiwn yn cael ei chyflwyno - Cymraeg/Saesneg. Dylai hyn fod wedi'i nodi'n glir ar y ffurflen archebu.

## Presenoldeb ac ymddygiad

Helpwch ni i gynnal perthynas gadarnhaol â'n partneriaid yn y diwydiant sy'n darparu'r profiadau hyn yn rhad ac am ddim. Mae hyn yn sicrhau y gallwn ni barhau i weithio gyda nhw a thyfu ein harlwy i'r dyfodol. Rydyn ni'n disgwyl safon uchel o ymddygiad gan y bobl ifanc sy'n dod i'r digwyddiadau ac rydyn ni'n dibynnu ar yr athrawon a'r oedolion sy'n eu hebrwng i baratoi a goruchwylio eu myfyrwyr.

- Dylid diffodd pob ffôn symudol a dyfais electronig yn ystod y digwyddiad. Os hoffech chi dynnu lluniau, gwnewch hynny ar ran y myfyrwyr
- Dim ond yn ystod egwyl addas ar gyfer lluniaeth y dylai bwyd a diod gael eu cymryd
- Dylai'r myfyrwyr wrando a thrin pawb maen nhw'n cwrdd â nhw yn barchus, gan gynnwys myfyrwyr o ysgolion eraill a allai fod yn bresennol hefyd
- Dylai pawb gymryd rhan mewn ffordd adeiladol. Er nad ydyn nhw yn yr ysgol, dylai'r myfyrwyr drin yr ymweliad fel cyfle dysgu

Os yw nifer y myfyrwyr sydd ar yr ymweliad yn uwch neu'n is nag y mae'r gwesteiwr yn ei ddisgwyl, gwnewch ymdrech i roi gwybod iddyn nhw ymlaen llaw.

## Prydlondeb

Cyrhaeddwch yn brydlon a rhowch wybod i'ch gwesteiwr os ydych chi am fod yn hwyr. Rydyn ni'n disgwyl i bob myfyriwr aros drwy gydol y digwyddiad. Dylai staff a myfyrwyr gyrraedd yn ôl o bob egwyl yn brydlon er mwyn caniatáu'r amser mwyaf posibl ar gyfer y gweithgareddau a fydd wedi'u cynllunio.

## Lluniaeth

Lle bo angen a lle bo hynny'n addas, gwnewch yn siŵr bod eich myfyrwyr yn dod â chinio gyda nhw; efallai na fydd cyfle iddyn nhw brynu cinio gerllaw. Mae'n bosibl y gall eich gwesteiwr ddarparu lle cyfforddus i'r myfyrwyr fwyta eu cinio.

## Eiddo

Cyfrifoldeb eich myfyrwyr yw unrhyw bethau gwerthfawr sydd ganddyn nhw ar yr ymweliad. Gwnewch yn siŵr bod y myfyrwyr yn cadw eu heiddo gyda nhw bob amser. Efallai na fydd lle i storio bagiau a chotiau felly efallai na fyddan nhw eisiau dod â gormod o bethau.

## Beth i'w wisgo

Awgrymwn fod y disgyblion yn gwisgo eu gwisg ysgol, os yw'n berthnasol. Fel arall, rydyn ni'n cynghori gwisgo dillad cyfforddus ac esgidiau fflat.

## Ffotograffiaeth a ffilmio

Byddem wrth ein bodd yn derbyn lluniau a fideos o'ch profiad, ond holwch eich gwesteiwr gan y gallai fod ganddyn nhw reolau llym ynglŷn â'r hyn a all gael ei gynnwys mewn lluniau a fideos.

Yn y pecyn cymorth i'r diwydiant, rydyn ni wedi darparu canllawiau i sicrhau y bydd eich gwesteiwyr yn trafod caniatâd a chydsyniad gyda'r ysgolion sy'n ymweld â nhw cyn cymryd unrhyw luniau neu fideos yn ystod y dydd. Efallai y byddan nhw hefyd yn gofyn i chi lenwi un o'n ffurflenni cydsyniad:

- Lawrlwythwch ffurflen gydsyniad y cyfryngau i rai dan 18 oed fel rhan o Canfod! Gyrfaoedd Creadigol Cymru
- Lawrlwythwch ffurflen gydsyniad y cyfryngau i rai dros 18 oed fel rhan o Canfod! Gyrfaoedd Creadigol Cymru

## Pecyn Ymgyrch

Byddem yn gwerthfawrogi eich cefnogaeth i godi ymwybyddiaeth o'r rhaglen a Canfod! Gyrfaoedd Creadigol Cymru drwy eich platfformau - gallwch lawrlwytho cynnwys enghreifftiol, logos a thempledi drwy'r ddolen isod.

- Lawrlwythwch Becyn Ymgyrch Addysgwr Canfod! Gyrfaoedd Creadigol Cymru



# Iechyd a Diogelwch: Ymweliadau ar y safle

Bwriad y wybodaeth ganlynol yw rhoi rhywfaint o arweiniad i helpu i wneud eich profiad yn un diogel a chadarnhaol. Fel rhan o'u pecyn cymorth i'r diwydiant, mae gwesteiwyr y diwydiant wedi cael cyngor ar gynllunio digwyddiad diogel. Mae disgwyl y bydd eu hyswiriant iechyd ac atebolrwydd cyhoeddus a'u gweithdrefnau iechyd a diogelwch yn gyfredol, ac maen nhw hefyd wedi cael cyngor ar gwblhau asesiad risg fel rhan o'u paratoadau at y digwyddiad. Efallai yr hoffech ofyn am gopi o hyn i'ch helpu i lunio eich asesiad risg eich hun.

## Goruchwyliaeth

- Bydd yr ysgol / coleg yn gyfrifol am oruchwylio eu myfyrwyr yn ystod y digwyddiad ac am sicrhau bod rheolau a gweithdrefnau'r gwesteiwr yn cael eu dilyn
- Rhaid i'r ysgol / coleg ddarparu o leiaf un aelod o staff i bob 15 o bobl ifanc
- Bydd y gwesteiwr yn darparu gweithwyr proffesiynol y diwydiant i ymwneud â'ch myfyrwyr ac fe fyddan nhw'n rheoli unrhyw weithdai neu deithiau sydd wedi'u cynllunio

## Asesiadau Risg

- Bydd yr ysgol / coleg yn gyfrifol am gynnal eu hasesiad risg eu hunain ar gyfer y digwyddiad, yn unol â'u polisi tripiau ysgol
- Bydd y gwesteiwr yn gyfrifol am gynnal eu hasesiad risg eu hunain o unrhyw weithgareddau sydd wedi'u cynllunio. Rydym yn argymell eich bod yn trafod â nhw wrth greu eich asesiad risg eich hun
- Bydd y gwesteiwr yn gyfrifol am ddarparu amgylchedd a gweithgareddau diogel, ac am sicrhau bod rheolaethau risg priodol ar waith
- Bydd yr ysgol / coleg yn gyfrifol am lynu wrth unrhyw fesurau y mae'r gwesteiwr yn eu rhoi ar waith i gadw pawb yn ddiogel yn ystod eu hymweliad

## Gwybodaeth hanfodol

- Bydd y gwesteiwr yn gyfrifol am gyfleu gwybodaeth hanfodol fel logisteg y dydd, trefniadau egwyl a thŷ bach, gweithdrefnau argyfwng a chymorth cyntaf, ac ati. Bydd y rhain yn cael eu hegluro yn ystod eich sesiwn groeso
- Bydd yr ysgol / coleg yn gyfrifol am sicrhau bod yr holl staff a'r myfyrwyr yn bresennol ar gyfer y sesiwn groeso a bod yr holl drefniadau diogelwch yn cael eu dilyn

## Cyfathrebu

- Yn ystod y digwyddiad, dylai'r ysgol / coleg gyfeirio unrhyw gwestiynau neu bryderon at eich prif gyswllt yn y sefydliad sy'n eich croesawu
- Dylid rhoi gwybod am unrhyw ddamweiniau neu ddamweiniau fu bron â digwydd cyn gynted â phosibl i'ch prif gyswllt yn y sefydliad sy'n eich croesaw

## Diogelu

- Dylai aelod o staff yr ysgol hebrwng eich myfyrwyr yn ystod y digwyddiad. Gwnewch yn siŵr eich bod yn dod â digon o oedolion i hebrwng eich myfyrwyr os cânt eu rhannu'n grwpiau llai. Yr ysgolion / colegau sy'n gyfrifol yn gyffredinol am eu myfyrwyr yn ystod y digwyddiad
- Mae'r gwesteiwyr wedi cael gwybod bod ganddyn nhw rywfaint o gyfrifoldeb dros ddiogelu ac y dylai fod ganddyn nhw bolisïau a gweithdrefnau diogelu cyfredol ar waith. Er gwybodaeth i chi, rydyn ni hefyd wedi rhannu'r rhestr ganlynol o bethau i'w gwneud a pheidio â'u gwneud yn ein pecyn cymorth i'r diwydiant:

### Pethau i'w gwneud

- Gofynnwch i'r myfyrwyr anfon unrhyw ymholiadau drwy e-bost i gyfeiriad e-bost gwaith generig a chysylltu â chi drwy athro neu riant/gofalwr
- Atebwch e-byst gan fyfyrwyr, gan sicrhau eich bod bob amser yn copïo eu hathro neu riant/gofalwr
- Gwnewch yn siŵr bod gan y bobl ifanc ddigon o gyfleoedd i orffwys, myfyrio a chael mynediad at luniaeth a thoiledau
- Rhowch wybod am unrhyw beth sy'n eich poeni neu'n eich pryderu. Mae diogelu yn gyfrifoldeb i bawb
- Cymerwch ofal arbennig i ddiogelu delweddau a gwybodaeth bersonol sy'n gysylltiedig â myfyrwyr
- Dilëwch ddelweddau digidol o fyfyrwyr. Os oes gennych chi gydsyniad i'w cadw a'u rhannu, storiwch nhw'n ddiogel ar weinydd mewnol a'u dileu o'ch dyfeisiau personol.
- Ystyriwch yn ofalus pa wybodaeth rydych chi'n ei rhannu ar-lein. Os oes gennych gydsyniad i rannu delweddau / clipiau fideo, peidiwch â defnyddio enwau llawn y plant neu enwch yr ysgol a'r ardal leol yn lle hynny

### Pethau i beidio â'u gwneud

- Peidiwch â'ch cael eich hun ar eich pen eich hun gyda pherson ifanc, hyd yn oed os oes gennych chi gliriad DBS
- Peidiwch â thynnu lluniau na ffilmiau o fyfyrwyr oni bai eich bod wedi derbyn ffurflenni cydsyniad wedi'u llofnodi oddi wrth yr athro neu'r rhieni/gofalwyr
- Peidiwch â rhannu gwybodaeth bersonol â myfyrwyr, na chysylltu â nhw drwy'r cyfryngau cymdeithasol
- Peidiwch â gwneud addewidion na allwch eu cadw, e.e. cytuno i drefnu ymweliadau pellach neu roi'r ysgol mewn cyswllt â rhywun enwog
- Peidiwch â datgelu gwybodaeth am fyfyrwyr unigol
- Peidiwch â chychwyn cyswllt corfforol. Fodd bynnag, os daw plentyn atoch mewn trallod, cofiwch ymddwyn yn gyfrifol ac yng ngolwg eraill

# Canfod! Gyrfaoedd Creadigol
# Fy Nghynllunydd Personol (i fyfyrwyr)

**Ydych chi'n gwybod beth sydd ei angen i fod yn rhaglennydd Deallusrwydd Artiffisial (AI)? Neu adeiladwr beiciau? Dylunydd gwisgoedd? Beth am gymysgydd sain neu guradur amgueddfa? Efallai nad ydych chi erioed wedi clywed am rai o'r swyddi hyn, ond maen nhw'n cynrychioli'r amrywiaeth o sgiliau sydd eu hangen yn y diwydiannau creadigol.**

Mae digwyddiadau Canfod! Gyrfaoedd Creadigol yn gyfle i chi ddeall yr ystod o sectorau a llwybrau gyrfa posibl sydd ar gael i chi. Efallai y cewch gyfle i ymweld â gweithle; mwynhau gweithdy rhyngweithiol; clywed gweithwyr proffesiynol yn siarad am eu rolau a'u llwybrau gyrfa; neu gymryd rhan mewn sesiwn holi ac ateb.

Os ydych chi'n mwynhau pynciau creadigol ac yn dymuno dilyn gyrfa greadigol, neu os oes gennych chi'r sgiliau STEM cryf sydd eu hangen ar draws y diwydiannau creadigol, mae gyrfa ar gael i bawb.

## Cyn eich digwyddiad:

- Cymerwch olwg ar ein gwefan: discovercreative.careers/cy ymgyfarwyddo â gwahanol is-sectorau'r diwydiannau creadigol. Gwyliwch ein hadnoddau fideo a defnyddiwch ein chwilotwr gyrfaoedd i weld pa rolau a sectorau fyddai'n addas i chi.
- Ymchwiliwch i'r gweithgaredd y byddwch chi'n cymryd rhan ynddo. Pa sefydliad/sefydliadau fyddwch chi'n gweithio gyda nhw? Beth maen nhw'n ei wneud? Pa fath o swyddi sydd yna yn y cwmni?
- Meddyliwch am ychydig o gwestiynau i'w gofyn ar y diwrnod!

## Yn ystod y digwyddiad:

Efallai y cewch gyfle i gwrdd â gweithwyr proffesiynol neu ofyn cwestiynau yn ystod y digwyddiad. Dyma rai awgrymiadau ond mae croeso i chi feddwl am eich rhai eich hun:

- Beth yw teitl eich swydd?
- Sut wnaethoch chi ddod i weithio yn y sector yma?
- Beth ydych chi'n ei fwynhau fwyaf am eich rôl?
- Pa gyngor fyddech chi'n ei roi i berson ifanc sydd â diddordeb mewn gwneud swydd debyg?

## Ar ôl y digwyddiad:

Gwnewch nodiadau yn ystod y dydd os gallwch chi. Fel arall, gwnewch yn siŵr eich bod yn cymryd ychydig amser i ystyried y cwestiynau canlynol:

- Beth ydych chi wedi'i ddysgu o gymryd rhan yn y digwyddiad?
- Allwch chi enwi unrhyw swyddi y byddai gennych chi ddiddordeb ynddyn nhw yn y dyfodol?
- A yw eich profiad heddiw wedi gwneud i chi ailystyried eich opsiynau neu gynlluniau o ran pa bynciau yr hoffech chi eu hastudio yn y dyfodol?

CANFOD!
gyrfaoedd creadigol

DISCOVER!
creative careers

**Mwy o wybodaeth**
discovercreative.careers/cy/athrawon-ac-arwein-wyr-gyrfa/canfod-gyrfaoedd-creadigol

**Cysylltwch â ni**
discovercymru@intofilm.org

**Dilynwch ni ar Instagram**
@discovercreativecareers

**Ymunwch â ni ar LinkedIn**
Discover! Creative Careers


Funded by
UK Government

Wedi ei ariannu gan
Llywodraeth y DU

Mae Canfod! Gyrfaoedd Creadigol Cymru 2025–26 wedi'i hariannu gan yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon (DCMS). Mae'n cael ei chyflwyno gan ScreenSkills, mewn partneriaeth â sefydliadau ledled y DU sy'n cynrychioli'r diwydiannau creadigol.